

Ffurflen gais am Grantiau Dibynyddion 2017/18

Bydd unrhyw gopïau o ddogfennau ariannol y byddwch yn eu hanfon atom gyda'r ffurflen hon yn cael eu dinistrio mewn ffordd ddiogel ar ôl i ni eu harchwilio.

Cyfeirnod Cwsmer

Enw

Dyddiad geni


Cyfeiriad

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>										
<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	/	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>										
<input type="text"/>										Cod post

Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?

Myfyrwyr amser llawn sydd eisoes wedi cwblhau eu cais am gyllid i fyfyrwyr ar gyfer 2017/18, ac sy'n dymuno gwneud cais am Grant Oedolion Dibynol, Lwfans Dysgu i Rieni a/neu Grant Gofal Plant nawr.

Sut ddylwn i lenwi'r ffurflen hon?

- Atebwch bob cwestiwn yn adrannau 1 a 2, yna dylech lofnodi a dyddio'r datganiad.
- Os na fydd unrhyw gwestiynau yn berthnasol i chi, dylech ysgrifennu 'Amh' neu 'Dim' fel eich ateb.
- Bydd angen i chi anfon tystiolaeth gyda'ch cais pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon hwn. 
- Os bydd unrhyw gwestiynau yn cael eu gadael yn wag, ni fydd modd i ni brosesu'r cais hwn.

Ble ddylwn i anfon fy ffurflen

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, a llofnodi a dyddio'r datganiad:

Os ydych yn fyfyrwr newydd – dylech ddychwelyd eich ffurflen at Gyllid Myfyrwyr Cymru, Blwch Post 211, Cyffordd Llandudno, LL30 9FU

Os ydych yn fyfyrwr sy'n dychwelyd – ewch i: www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk/cyswllt i gael y cyfeiriad y bydd angen i chi ddychwelyd y ffurflen iddo.

adran 1 cwestiynau ariannol i'r myfyrwr

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gadarnhau unrhyw incwm a amcangyfrifir yn nes ymlaen. Os bydd eich incwm go iawn yn wahanol i'ch incwm a amcangyfrifir, byddwn yn ailasesu'ch hawl, ac efallai y bydd hyn yn newid lefel y cymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Incwm heb ei ennill

- a Amcangyfrifwch gyfanswm yr incwm trethadwy heb ei ennill yr ydych yn disgwyl ei gael yn ystod blwyddyn academiaidd 2017/18.

£	<input type="text"/>
<input type="text"/>	

Beth yw ffynhonnell yr incwm hwn?

Beth yw incwm trethadwy heb ei ennill?

Mae incwm trethadwy **heb ei ennill** yn unrhyw incwm a dderbyniwch gan y ffynonellau canlynol:

- Llog gros banc neu gymdeithas adeiladu
- Eiddo, gosod neu rhent
- Difidendau neu fuddsoddiadau
- Ymddiriedolaethau neu nawdd
- Unrhyw daliad arall a geir am fynychu'r cwrs

Wrth gyfrifo'ch incwm trethadwy heb ei ennill, **ni** ddylech gynnwys y canlynol:

- enillion o waith amser llawn neu waith rhan-amser, megis gwaith yn ystod y gwyliau neu waith y byddwch yn ei wneud yn ystod y tymor
- unrhyw daliadau grant neu Fenthyciad Cynhaliath a dderbyniwch gennym
- taliadau cynhaliath a dderbyniwch ar gyfer eich plant
- Bwrsariaethau i'r Rhai sy'n Gadael Gofal ac i Hyfforddi Athrawon



adran 1 cwestiynau ariannol i'r myfyriwr

Taliadau gan gyflogwr

b A fydd eich cyflogwr yn eich rhyddhau i fynychu eich cwrs ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18?

Os 'Bydd', faint fydd eich cyflogwr yn eich talu am yr amser y byddwch yn ei dreulio yn mynychu eich cwrs yn ystod y cyfnod hwn?

Bydd **Na fydd**

Os 'Na' ewch i d

£

Beth ddylwn i ei gynnwys yn fy ateb?

Dim ond os ydych yn cael eich **rhyddhau o'ch cyflogaeth** gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs y dylech nodi swm ar gyfer cwestiwn b.

Dim ond cyflog y byddwch yn ei gael gan y cyflogwr hwnnw am y diwrnodau pan fyddwch yn mynychu eich cwrs y dylech ei gynnwys.

Gallai unrhyw enillion gan gyflog a nodir yma effeithio ar eich hawl i gael cyllid i fyfyrwyr.

Ni ddylech nodi swm yma os ydych yn fyfyrwr sy'n gweithio wrth astudio, ond nid ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs.

c Yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, a fyddwch chi neu'ch cyflogwr yn talu unrhyw arian i gronfa bensiwn ar eich rhan?

Os 'Byddwch/Bydd', faint yn ystod y cyfnod hwn?



Byddaf/Bydd **Na fyddaf/Na fydd**

£

Plant dibynnol


d Nodwch fanylion unrhyw blant fydd yn ddibynnol arnoch chi yn ariannol yn llwyr neu'n bennaf yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.


Wrth nodi incwm y plentyn, dylech gynnwys ei incwm o bob ffynhonnell ar ôl cyfraniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol yn ystod blwyddyn dreth 2015-16.

Enw llawn y plentyn	Dyddiad geni 	Ei berthynas gyda chi	Gyda phwy y bydd yn byw?	Incwm y plentyn 
	(DD MM BBBB)			(£)

Beth ddylwn i ei gynnwys yn fy ateb?

Rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm a gafodd y plentyn trwy weithio, llog a enillwyd ar gynilion, buddsoddiadau ac unrhyw daliadau cynhaliaeth a gawsoch ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm **nhw** yn y cwestiwn hwn.

 Rhaid i chi anfon tystysgrif geni neu dystysgrif fabwysiadu **wreiddiol** pob plentyn, yn ogystal â **chopi** o'i Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth (TCAN) diweddaraf neu ei lythyr budd-dal plant pan fyddwch yn dychwelyd y ffurflen hon.

 **Rhaid** i chi anfon copïau o dystiolaeth i ddangos incwm eich plentyn gan bob ffynhonnell ar ôl cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol yn ystod blwyddyn dreth 2015-16.

adran 2 Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

Os ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant, yn ogystal â llenwi'r ffurflen hon, rhaid i chi lenwi Ffurflen Grant Gofal Plant (CCG1). Mae modd i chi lawrlwytho'r ffurflen hon trwy droi at: www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

a A ydych yn unig riant?

Ydw **Nac ydw** Os 'Ydych' ewch i d

b A ydych dan 25 oed, yn byw gyda phartner ac yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu Lwfans Dysgu i Rieni?

Ydw **Nac ydw** Os 'Na' ewch i d

c Nodwch gyfanswm yr incwm a amcangyfrifir ar ôl didyniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 ar gyfer:

Chi £ Eich partner £

Faint o hwn fydd yn Gredyd Treth Plant neu'n elfen plentyn y Credyd Cynhwysol ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18?

Chi £ Eich partner £

d **Atebwch y cwestiwn hwn os ydych yn gwneud cais am Grant Gofal Plant.**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18, a ydych chi neu'ch cymar, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn, neu'n disgwyl derbyn:

- elfen gofal plant Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol; neu
- Ofal Plant Di-dreth gan HMRC; neu
- Lwfans Gofal Plant gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)?

Nac ydw/Nac ydy

Ydw/Ydy - Ni allwch gael Grant Gofal Plant os ydych yn derbyn cefnogaeth gofal plant gan un o'r ffynonellau hyn ar yr un pryd.

Rydych yn dal i allu gwneud cais am Grant Gofal Plant, ond dim ond os ydych yn stopio derbyn cefnogaeth gan y ffynonellau hyn y byddwch yn ei gael.

Gwneud cais am Grant Gofal Plant

I wneud cais am Grant Gofal Plant, yn ogystal â llenwi'r ffurflen hon, rhaid i chi lenwi Ffurflen Grant Gofal Plant (CCG1). Gallwch lawrlwytho'r ffurflen hon trwy droi at: www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

e1 A ydych chi'n gwneud cais am Grant Oedolion Dibynnol

Ydw **Nac ydw** Os 'Na' ewch i f

e2 Pwy yw'ch oedolyn dibynnol?

Eich gŵr
Eich gwraig
Eich partner sifil
Eich partner (os ydych yn 25 oed neu'n hŷn)

oedolyn dibynnol arall

ewch i f

e3 A fydd incwm eich oedolyn dibynnol arall yn fwy na £3,923 ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18?

Bydd **Na fydd**

Gwneud cais am Grant Oedolion Dibynnol

Ni fydd modd i chi wneud cais am Grant Oedolion Dibynnol os bydd incwm eich oedolyn dibynnol arall yn fwy na £3,923 yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

adran 2 Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Oedolion Dibynnol a Grant Gofal Plant

e4 Nodwch incwm eich oedolyn dibynnol ar gyfer blwyddyn dreth 2015-16.

Incwm

Yr holl gyflog ac incwm hunangyflogaeth (dylech gynnwys incwm eiddo)

£

Yr holl incwm pensiwn (gan gynnwys pensiynau preifat, pensiynau galwedigaethol a phensiwn y wladwriaeth)

£

Yr holl incwm trethadwy gros o log, buddsoddiadau a difidendau

£

Budd-daliadau trethadwy y wladwriaeth

£

Yr holl incwm trethadwy arall

£


Didyniadau

Cyfraniadau i gynllun pensiwn preifat a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)

£

Treuliau a ganiateir, yr hawliwyd gostyngiad yn y dreth arnynt


£

f Nodwch fanylion yr ymrwymadau ariannol sydd gennych chi cyn dechrau'r cwrs, y byddwch chi, eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner yn parhau i'w talu yn ystod y flwyddyn academiaidd. 

Math	Math
£	£
Math	Math
£	£

Pa ymrwymadau ariannol ddylwn i eu cynnwys yn fy ateb?

Dylech gynnwys unrhyw bolisiau yswiriant sydd gennych chi fel yswiriant y cartref neu yswiriant meddygol, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais, ad-daliadau dan gytundeb benthycyca, neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer unigolyn dibynnol.

 Anfonwch **gopi** o dystiolaeth ddogfennol am bob ymrwymiad ariannol y byddwch yn rhoi gwybod i ni amdano.

Datganiad

- Rydw i'n cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Os nad yw, deallaf ei bod yn bosibl na fyddaf yn cael cymorth ariannol, ac y gallai cymorth a gefais gael ei dynnu yn ôl ac y gellir fy erlyn.
- Rydw i'n cytuno darparu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr (SLC) unrhyw wybodaeth y bydd angen iddynt ei chael i brosesu fy nghais, ac rydw i'n cytuno dweud wrthynt ar unwaith os bydd fy amgylchiadau yn newid mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar fy hawl i gael cymorth ariannol. Os na fyddaf yn gwneud hyn, deallaf ei bod yn bosibl na fyddaf yn cael unrhyw daliadau pellach, a gall fod rhaid i mi ad-dalu'r cymorth ariannol a gefais yn barod.
- Os byddaf yn cael gordaliad o ran y cymorth ariannol, rydw i'n cytuno bod rheidrwydd arnaf i ad-dalu'r swm hwn yn llawn.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

X

Dyddiad

/ /